ATODLEN 2

Troseddau a bennir at ddibenion rheoliad 7(9) a (10)

# RHAN 2

**13.** Daw person o fewn y paragraff hwn os yw wedi ei euogfarnu o unrhyw un neu ragor o'r troseddau a ganlyn a gyflawnwyd pan oedd yn 18 oed neu drosodd neu os yw wedi cael rhybuddiad gan gwnstabl mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd o'r fath—

(a) trosedd o dan adran 7 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 (cyfathrach â pherson diffygiol) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(b) trosedd o dan adran 9 o'r Ddeddf honno (caffael person diffygiol) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol,

(c) trosedd o dan adran 10 o'r Ddeddf honno (llosgach gan ddyn) drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(d) trosedd o dan adran 11 o'r Ddeddf honno (llosgach gan fenyw) drwy ganiatáu i blentyn gael cyfathrach rywiol â hi,

(e) yn ddarostyngedig i baragraff 14, trosedd o dan adran 12 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni sodomiaeth â phlentyn o dan 16 oed,

(f) yn ddarostyngedig i baragraff 14, trosedd o dan adran 13 o'r Ddeddf honno drwy gyflawni gweithred o anwedduster difrifol â phlentyn,

(g) trosedd o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (herwgydio person diffygiol oddi wrth riant neu warcheidwad) drwy gymryd plentyn o feddiant ei riant neu ei warcheidwad,

(h) trosedd o dan adran 22 o'r Ddeddf honno (achosi puteinio menywod) mewn perthynas â phlentyn,

(i) trosedd o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (caffael merch o dan 21 oed) drwy gaffael plentyn i gael cyfathrach rywiol â thrydydd person,

(j) trosedd o dan adran 27 o'r Ddeddf honno (caniatáu i berson diffygiol ddefnyddio mangre ar gyfer cyfathrach) drwy gymell neu ganiatáu i blentyn droi at fangre neu fod mewn mangre at ddiben cael cyfathrach rywiol,

(k) trosedd o dan adran 29 o'r Ddeddf honno (achosi neu annog puteinio person diffygiol) drwy achosi neu annog puteinio plentyn,

(l) trosedd o dan adran 30 o'r Ddeddf honno (dyn yn byw ar enillion puteindra) mewn achos pan fo'r butain yn blentyn,

(m) trosedd o dan adran 31 o'r Ddeddf honno (menyw yn arfer rheolaeth dros butain) mewn achos pan fo'r butain yn blentyn,

(n) trosedd o dan adran 128 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1959(**1**) (cyfathrach rywiol â chleifion), er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu, drwy gael cyfathrach rywiol â phlentyn,

(o) trosedd o dan adran 4 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1967(**2**) (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd cyfunrhywiol) (er gwaethaf bod y ddarpariaeth wedi ei diddymu) drwy—

(i) caffael plentyn i gyflawni gweithred o sodomiaeth ag unrhyw berson, neu

(ii) caffael unrhyw berson i gyflawni gweithred o sodomiaeth â phlentyn,

(**1**) 1959 p. 72.
(**2**) 1967 p. 60.

(p) trosedd o dan adran 5 o'r Ddeddf honno (byw ar enillion puteindra gwryw) drwy fyw yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar enillion puteindra plentyn, a

(q) trosedd o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf Dwyn 1968(**3**) (bwrgleriaeth), drwy fynd i adeilad neu ran o adeilad gan fwriadu treisio plentyn.

(**3**) 1968 p. 60.